**COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 10.00 O'R GLOCH Y BORE 23.2.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Martin Hughes

**PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, a'r Clerc
Cyng. Giles Bentham ar zoom.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 28ain 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eisiau dechrau trefnu i gael dau lloches bws ychwanegol mewn lleoliadau eraill nawr bod un newydd wedi ei osod o flaen y toiledau ger gwesty's Queens gan Traws Cymru.

**MATERION YN CODI**

**Cyllideb y Cyngor hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026**

Cytunwyd bod angen trafod y ceisiadau sydd wedi dod i law am gymorth ariannol a cytunwyd dylai rhai ddod o dan ymgysylltu a'r gymuned. Eisiau cael y diweddariad ynglyn ar Las Ynys a cytunodd yr Is-Gadeirydd gael sgwrs gyda'r Cyng. Christopher Braithwaite ynglyn a hyn. Cytunwyd bod angen adolygu y ffordd mae y taflen daenlen yn cael ei gwneud a cytunwyd i gynnal cyfarfod gyda'r Cyng. Martin Hughes i wneud hyn.

**Cyfraniad gan Gynghorwyr**

Nid oedd unrhyw gyfraniad gan Gynghorydd wedi eu derbyn.

**Projectau y Cyngor am 2026/27 ynghyd ar gwariant arfaethedig**

Datganwyd siom bod cael y prisiau i mewn am offer newydd yn y ddau barc chwarae heb gael ei gytuno eto er bod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor bod yr is-bwyllgor ardaloedd gwyrdd yn cyfarfod cyn gynted a phosib a cytunodd yr Is-Gadeirydd drefnu y cyfarfod hwn, hefyd angen prisiau am lochesi bws newydd i'w gosod mewn lleoliadau eraill, a cytunodd yr Is-Gadeirydd ofyn am bris i gario allan gwellianau ar Llwybr Natur Bron y Graig.

**Pecyn Meddalwedd**

Bu trafodaeth ynglyn a chael yr uchod a datganodd y Clerc ei bod yn mynychu cyfarfod ar lein sydd wedi cael ei drefnu gan Scribe ar y 26ain o'r mis hwn.

**ARWYDDWYD........................................Cadeirydd**

**DYDDIAD...............................................**